**SSCS2**

# Hysbysiad o apêl yn erbyn penderfyniad gan yr Adran Gwaith a Phensiynau – **Grŵp Cynhaliaeth Plant**

Dylech ddefnyddio'r ffurflen hon i apelio yn erbyn penderfyniad ynghylch cynhaliaeth neu gynnal plant a wnaed gan Grŵp Cynhaliaeth Plant yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP). Ar gyfer penderfyniadau ynghylch budd-daliadau nawdd cymdeithasol, dylech ddefnyddio ffurflen SSCS1.

Mae yna ragor o gyfarwyddyd i'ch helpu i lenwi'r ffurflen hon yn y llyfryn SSCS2A 'Sut i apelio yn erbyn penderfyniad ynghylch Cynhaliaeth Plant a wnaed gan yr Adran Gwaith a Phensiynau'. Gallwch lawrlwytho'r llyfryn neu ddarganfod o ble allwch gael copi ohono drwy fynd i: www.gov.uk/apelio-penderfyniad-budd-dal

Cymorth a chefnogaeth
Gallwch ofyn i rywun sy'n gyfarwydd â'r system fudd-daliadau eich helpu gyda'ch apêl. Er enghraifft, rhywun o'ch canolfan gyngor lleol, canolfan y gyfraith neu Ganolfan Cyngor ar Bopeth. Gallwch hefyd ofyn i ffrind neu aelod o'r teulu.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y gwasanaeth apelio yn erbyn penderfyniad ynghylch budd-daliadau, ffoniwch linell gymorth apeliadau budd-daliadau GLITEM gan ddefnyddio un o'r rhifau a nodir isod. Ni all asiantau'r llinell gymorth roi cyngor cyfreithiol i chi.
Cymru a Lloegr: 0300 123 1142. Yr Alban: 0300 790 6234. Llinell gymorth i siaradwyr Cymraeg: 0300 303 5170.

Mae'r ffurflen hon ar gael mewn fformatau eraill
Gallwch lawrlwytho'r ffurflen hon mewn print bras neu'n Gymraeg: www.gov.uk/government/publications/appeal-a-social-security-benefits-decision-form-sscs2.cy. Os oes arnoch angen copi ohoni mewn Braille yna ffoniwch: 0300 303 5170/0300 123 1142.

## Cyn i chi ddechrau

Byddwch angen yr wybodaeth ganlynol i lenwi'r ffurflen hon:

- Eich Hysbysiad Gorfodi i Ailystyried (MRN)
- Manylion y parti/partïon eraill
- Manylion eich cynrychiolydd (os oes gennych un)

  Os oes gennych rywun yn eich helpu gyda'ch apêl, yna gallwch eu cofrestru fel eich 'cynrychiolydd'. Er enghraifft, rhywun o'ch canolfan gyngor lleol, canolfan y gyfraith neu Ganolfan Cyngor ar Bopeth.
- Rhesymau dros apelio

Y rhesymau paham yr ydych yn anghytuno â phenderfyniad y Grŵp Cynhaliaeth Plant. Gallwch ysgrifennu cymaint â hoffech ei wneud. Bydd eich apêl yn cael ei phenderfynu gan dribiwnlys annibynnol. Mae ar wahân i'r Grŵp Cynhaliaeth Plant.


© Hawlfraint y Goron 2022

## Adran 1: Eich manylion

Defnyddiwch LLYTHRENNAU BRAS

Llenwch yr adran hon i ddweud wrthym amdanoch. Mae angen i chi hefyd ddweud wrthym beth yw eich rôl yn yr achos cynhaliaeth plant. Efallai mai chi yw'r rhiant sy'n talu neu'r rhiant sy'n derbyn taliadau. Ticiwch y blwch priodol yn yr adran hon i ddweud wrthym am hyn.

☐ Mr ☐ Mrs ☐ Miss ☐ Ms ☐ Doctor ☐ Y Parchedig

Enw cyntaf

Enw olaf

Llinell cyfeiriad 1

Dyddiad geni (DD/MM/BBBB)

__ __ / __ __ / __ __ __ __

Llinell cyfeiriad 2

Rhif Yswiriant Gwladol

Llythrennau | Rhifau | Llythyren

Llinell cyfeiriad 3

Eich rhif cynhaliaeth plant

Cod post

Cyfeiriad e-bost
Byddwch yn cael diweddariadau a dolen fel y gallwch reoli eich apêl ar-lein.

Rhif ffôn symudol

Rhif ffôn llinell dir (os oes gennych un)

☐ Diweddariadau Negeseuon Testun

Ticiwch y blwch hwn os yr hoffech gael diweddariadau trwy negeseuon testun

Byddwch yn cael diweddariadau am ddim a dolen fel y gallwch reoli eich apêl ar-lein

**Nodwch beth eich rôl yn yr achos cynhaliaeth plant drwy roi tic yn un o'r blychau isod:**


☐ Fi yw'r rhiant sy'n talu — *Mae hyn yn golygu mai chi yw'r unigolyn y gofynnwyd iddo wneud taliadau.*

☐ Fi yw'r rhiant sy'n derbyn taliadau — *Mae hyn yn golygu mai chi yw'r unigolyn a fydd yn cael y taliadau cynhaliaeth plant.*

☐ Rwy'n barti arall — *Esboniwch eich rôl yma.*

## Adran 2: Ynglŷn â'ch apêl Cynhaliaeth Plant

Beth yw'r dyddiad ar eich Hysbysiad Gorfodi i Ailystyried (MRN), os oes gennych un?




Nodwch y dyddiad a welir ar frig ochr dde eich llythyr MRN neu'r dyddiad sydd ar eich llythyr penderfyniad ynghylch budd-daliadau er enghraifft 27/04/21

☐☐ / ☐☐ / ☐☐☐☐

Os yw'r dyddiad yr ydych wedi'i nodi dros fis o ddyddiad heddiw, esboniwch yn gryno pam fod eich apêl yn hwyr.

Mae gan y Grŵp Cynhaliaeth Plant a'r unigolyn(unigolion) eraill sy'n rhan o'r apêl yr hawl i wrthwynebu apêl hwyr os ydynt yn credu bod sail dros wneud hynny. Bydd y tribiwnlys yn ystyried unrhyw wrthwynebiad a wneir ac yn rhoi gwybod ichi beth yw'r canlyniad.

## **Adran 3:** Ynglŷn â'r unigolyn arall yn yr achos cynhaliaeth plant

Dywedwch wrthym yma am yr unigolyn arall sy'n ymwneud â'r achos cynhaliaeth plant. Gallai hyn fod y rhiant y mae'n ofynnol iddo/i wneud taliadau neu'r rhiant sy'n derbyn y taliadau. Bydd yr unigolyn arall yn yr achos yn ymwneud yn awtomatig â'r apêl a bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn anfon copïau o'r papurau perthnasol atynt, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am gynnydd yr apêl ac yn eu gwahodd i fynychu unrhyw wrandawiad. Yn dibynnu ar eich amgylchiadau, efallai y bydd mwy nag un unigolyn arall yn rhan o'r apêl.

☐ Mr ☐ Mrs ☐ Miss ☐ Ms ☐ Arall (rhowch fanylion)

Enw cyntaf yr unigolyn arall

Cyfenw'r unigolyn arall

Ydych chi'n gwybod beth yw cyfeiriad yr unigolyn arall? ☐ Ydw ☐ Nac ydw

**Os Nac ydw,** byddwn yn gofyn i'r Grŵp Cynhaliaeth Plant ddweud wrthym beth yw cyfeiriad yr unigolyn arall fel y gallwn ysgrifennu atynt ynghylch yr apêl ac anfon copïau o'r papurau **atynt.**

**Os Ydw,** rhowch gyfeiriad yr unigolyn isod.

Cyfeiriad

Cod post

☐☐☐☐ ☐☐☐

Os oes mwy nag un unigolyn yn rhan o'r asesiad, rhowch eu manylion ar ddalen ar wahân.

## Adran 4: Ynglŷn â'ch cynrychiolydd (os oes gennych un)

Llenwch yr adran hon os oes gennych rywun yn eich helpu gyda'ch apêl a hoffech iddynt fod yn 'gynrychiolydd' i chi. Gallai hyn fod yn rhywun o'ch canolfan gyngor lleol, canolfan y gyfraith neu Ganolfan Cyngor ar Bopeth. Gallai hefyd fod yn ffrind, yn aelod o'r teulu neu'n gynghorydd sy'n gwybod am faterion cynhaliaeth plant.

Mae cofrestru cynrychiolydd yn golygu y gallant:

Mae cofrestru cynrychiolydd yn golygu y gallant:

- eich helpu i gyflwyno eich apêl neu baratoi eich tystiolaeth
- gweithredu ar eich rhan (dylent ofyn am eich caniatâd yn gyntaf)
- gweld unrhyw dystiolaeth a gyflwynir gennych chi, yr unigolyn arall sy'n ymwneud â'r apêl, a'r Grŵp Cynhaliaeth Plant

Drwy roi eu manylion yma a llofnodi'r ffurflen hon, rydych yn awdurdodi'r tribiwnlys i ddelio â'ch cynrychiolydd yn ogystal â chi, ynghylch eich apêl.

Rhowch gymaint o wybodaeth ag y gallwch am eich cynrychiolydd. Os ydych eisiau penodi cynrychiolydd yn hwyrach ymlaen, yna bydd rhaid i chi anfon y manylion atom yn ysgrifenedig i'r cyfeiriad sydd ar ddiwedd y ffurflen hon.

☐ Mr ☐ Mrs ☐ Miss ☐ Ms ☐ Doctor ☐ Y Parchedig

Enw cyntaf

Enw olaf

Sefydliad (os ydynt yn gweithio i un)

Llinell cyfeiriad 1

Llinell cyfeiriad 2

Llinell cyfeiriad 3

Cod post

Cyfeiriad e-bost
Bydd eich cynrychiolydd yn cael diweddariadau a dolen fel y gallant reoli eich apêl ar-lein.

Rhif ffôn symudol

Rhif ffôn llinell dir (os oes ganddynt un)

## Adran 5: Ynglŷn â chyfrinachedd

Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM rannu'r holl dystiolaeth sy'n ymwneud â'r apêl gyda'r unigolyn arall sy'n ymwneud â hi. Felly, gall yr unigolyn arall gael gwybodaeth sy'n dangos ble rydych chi'n byw. **Os nad ydych yn dymuno i'r unigolyn arall wybod ble rydych yn byw**, gall Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM atal hyn rhag digwydd drwy gael gwared â manylion cyfeiriad oddi ar unrhyw dystiolaeth a anfonir at yr unigolyn arall. Dim ond gwybodaeth a fyddai'n golygu bod modd adnabod cyfeiriad cartref partïon ohoni y gellir ei chadw'n gyfrinachol. Nodwch isod a yw'r unigolyn arall yn gwybod ble rydych yn byw ac a ydych eisiau i'ch cyfeiriad gael ei gadw'n gyfrinachol.

A yw'r unigolyn arall yn gwybod ble rydych chi'n byw? ☐ Ydy ☐ Nac ydy

Os Nac ydy, ydych chi eisiau i'ch cyfeiriad cartref gael ei gadw'n gyfrinachol? ☐ Ydw ☐ Nac ydw

Os oes mwy nag un unigolyn yn rhan o'r achos, bydd eich cyfeiriad yn cael ei gadw oddi wrth bob unigolyn arall sy'n rhan o'r achos os ydych wedi gofyn am gyfrinachedd.

## Adran 6: Ynglŷn â'ch apêl

Dyma lle rydych chi'n esbonio i'r tribiwnlys pam rydych chi'n apelio. Bydd y tribiwnlys yn defnyddio'r wybodaeth hon, ac unrhyw dystiolaeth rydych chi, yr unigolyn arall sy'n ymwneud â'r apêl, a'r Grŵp Cynhaliaeth Plant yn ei chyflwyno, i'w helpu i wneud penderfyniad ynghylch eich apêl.

Dylai'r Grŵp Cynhaliaeth Plant fod wedi esbonio ei benderfyniad yn yr Hysbysiad Gorfodi i Ailystyried (MRN) neu'r llythyr penderfyniad a anfonwyd atoch. Darllenwch eich MRN a'r llythyr penderfyniad.

Ysgrifennwch yr hyn rydych chi'n anghytuno ag ef a pham rydych chi'n anghytuno ag ef.

Gallwch ysgrifennu cymaint â hoffech ei wneud ond mae'n rhaid i chi roi o leiaf un rheswm.

*(os oes angen, parhewch ar ddalen ar wahân a rhowch eich cyfeirnod cynhaliaeth plant ar bob dalen)*

**Darparu tystiolaeth i gefnogi eich apêl Cynhaliaeth Plant**

Tystiolaeth yw unrhyw wybodaeth sy'n cefnogi eich apêl megis llythyr neu ddatganiad ysgrifenedig. Mae tystiolaeth ddefnyddiol yn helpu'r tribiwnlys i ddeall ffeithiau eich apêl.

Gallwch gynnwys eich tystiolaeth gyda'r ffurflen apêl hon neu gallwch ei hanfon yn nes ymlaen. Dylech ddarparu tystiolaeth cyn gynted â phosibl yn eich apêl, fel bod gan y tribiwnlys amser i'w hadolygu cyn gwneud penderfyniad.

Nid oes rhaid i chi anfon tystiolaeth. Bydd unrhyw dystiolaeth a anfonwch yn cael ei rhannu â'r unigolyn arall sy'n rhan o'r apêl, y Grŵp Cynhaliaeth Plant, a'ch 'cynrychiolydd', os oes gennych un.

.

## Adran 7: Ynghylch eich dewis o wrandawiad

Bydd eich apêl yn cael ei phenderfynu gan y tribiwnlys gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd ar y ffurflen hon ac unrhyw dystiolaeth ychwanegol a roddwch. Bydd gwybodaeth a thystiolaeth a gyflwynwyd gan yr unigolyn arall sy'n ymwneud â'r apêl, a'r Grŵp Cynhaliaeth Plant hefyd yn cael eu hystyried.

Gallwch hefyd esbonio eich rhesymau dros apelio drwy gymryd rhan yn y gwrandawiad, a gallai hynny fod dros y ffôn, drwy fideo neu wyneb yn wyneb. Bydd disgwyl i chi, eich cynrychiolydd neu'r unigolyn arall sy'n rhan o'r apêl fynychu'r gwrandawiad.

Gall y tribiwnlys drefnu i chi gael cymorth yn eich gwrandawiad megis cyfieithydd, dolen glyw neu fynediad i'r anabl.

Rwyf eisiau cymryd rhan yn y gwrandawiad ☐ Ewch i Adran 7a

Nid wyf eisiau cymryd rhan yn y gwrandawiad ☐ Ewch i Adran 10

Byddwn hefyd yn ysgrifennu at yr unigolyn arall sy'n rhan o'r apêl i ofyn sut yr hoffent i'r apêl gael ei phenderfynu. Os bydd unrhyw unigolyn arall yn yr apêl yn dewis mynychu gwrandawiad, yna bydd gwrandawiad yn cael ei drefnu, ond dim ond os ydych eisiau mynychu y bydd angen i chi wneud hynny.

## Adran 7a: Eich gwrandawiad dros y ffôn, drwy fideo neu wyneb yn wyneb

Y tribiwnlys fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch y math o wrandawiad a gynhelir.

Dewiswch yr holl opsiynau a fyddai'n eich galluogi i gymryd rhan yn y gwrandawiad.

☐ Ffôn (bydd angen rhywle tawel a phreifat arnoch i siarad). Rhowch eich rhif ffôn dewisol i ni os yw'n wahanol i'r uchod.

☐ Fideo (bydd angen i chi gael mynediad at gyfrifiadur neu ddyfais symudol gyda chysylltiad da â'r rhyngrwyd a rhywle tawel a phreifat i siarad). Rhowch eich cyfeiriad e-bost dewisol i ni os yw'n wahanol i'r uchod.

☐ Wyneb yn wyneb (bydd angen i chi deithio i'r gwrandawiad). Ewch i Adran 8 ➜

Dylech ond llenwi'r adran hon os ydych wedi dweud eich bod eisiau cymryd rhan yn y gwrandawiad a bod angen i'r tribiwnlys drefnu cymorth i chi. Ni chodir tâl arnoch am unrhyw gymorth y mae'r tribiwnlys yn ei drefnu.

Ni allwch ddefnyddio eich cyfieithydd eich hun yn y gwrandawiad. Rhowch fanylion isod, os oes angen un arnoch.

Cyfieithydd Iaith

Tafodiaith

Iaith

Cyfieithydd iaith arwyddion

Iaith arwyddion

☐ Dolen glyw

☐ Ystafell wrandawiadau hygyrch

Unrhyw gymorth arall y mae angen i'r tribiwnlys ei drefnu a allai fod ar gyfer cyflwr iechyd corfforol neu feddyliol

# Adran 9: Pa bryd yr ydych ar gael ar gyfer gwrandawiad

Dim ond os ydych wedi dweud eich bod eisiau dod i'r gwrandawiad ar gyfer eich apêl y dylech lenwi'r adran hon.

Dylech sicrhau eich bod ar gael ar gyfer y gwrandawiad, ond os oes ddyddiadau pan na allwch fod yn bresennol, yna nodwch nhw isod. Os oes gennych gynrychiolydd, dylech hefyd gynnwys dyddiadau pan nad yw ef/hi ar gael.

☐ Byddaf ar gael pryd bynnag y bydd y gwrandawiad wedi'i drefnu. Nid oes gennyf ddyddiadau y dylid eu hosgoi.

Ewch i adran 10

Noder: Mae hyn yn cynnwys derbyn cynnig GLITEM os bydd yn cynnig gwrandawiad i chi ar fyr rybudd oherwydd bod gwrandawiad arall wedi'i ganslo (o fewn 14 diwrnod i ddyddiad y gwrandawiad). Byddwn yn eich ffonio i gadarnhau a ydych ar gael os byddwn yn cynnig dyddiad gyda llai na 14 diwrnod o rybudd.

☐ Rwyf angen dweud wrth y tribiwnlys am ddyddiadau pan na allaf fynychu gwrandawiad (nodwch nhw isod)

Nodwch ddyddiadau sydd rhwng 3 ac 8 mis yn y dyfodol yn unig.

Mis | S | E | P |

enghraifft

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | [redacted] | [redacted] | 4 | 5 | 6 | |
| 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | | 14 |
| 15 | [redacted] | 18 | 19 | | 21 | 22 |
| 23 | 24 | 25 | | 27 | 28 | 29 |
| [redacted] | 31 | | | | | |

Mis | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
| 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 |
| 15 | 16 | 17 | 18 | 19 | 20 | 21 |
| 22 | 23 | 24 | 25 | 26 | 27 | 28 |
| 29 | 30 | 31 | | | | |

Mis | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
| 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 |
| 15 | 16 | 17 | 18 | 19 | 20 | 21 |
| 22 | 23 | 24 | 25 | 26 | 27 | 28 |
| 29 | 30 | 31 | | | | |

Mis | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
| 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 |
| 15 | 16 | 17 | 18 | 19 | 20 | 21 |
| 22 | 23 | 24 | 25 | 26 | 27 | 28 |
| 29 | 30 | 31 | | | | |

Mis | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
| 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 |
| 15 | 16 | 17 | 18 | 19 | 20 | 21 |
| 22 | 23 | 24 | 25 | 26 | 27 | 28 |
| 29 | 30 | 31 | | | | |

Mis | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
| 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 |
| 15 | 16 | 17 | 18 | 19 | 20 | 21 |
| 22 | 23 | 24 | 25 | 26 | 27 | 28 |
| 29 | 30 | 31 | | | | |

Ewch i adran 10

# Adran 10: Llofnodi a phostio

Mae'r wybodaeth rwyf wedi'i darparu yn y cais apêl hwn yn gywir, hyd eithaf fy ngwybodaeth.

Rwy'n rhoi caniatâd i'r tribiwnlys ohebu â'm cynrychiolydd ynghylch fy apêl (os ydych wedi darparu manylion cynrychiolydd).

Enw (mewn LLYTHRENNAU BRAS)
Yr unigolyn a enwir ar yr apêl yn adran 1

Llofnod
Yr unigolyn a enwir ar yr apêl yn adran 1

Dyddiad (DD/MM/BB)

/ /

Ni ddylai cynrychiolwyr lofnodi'r ffurflen hon oni bai eu bod yn cyflwyno 'Awdurdod i Weithredu' ar ran yr apelydd gyda'r cais hwn.

---

## Ble i bostio eich ffurflen apêl

Mae angen i chi anfon eich ffurflen apêl a chopi o'r Hysbysiad Gorfodi i Ailystyried (MRN) at Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.

Os ydych yn byw yng Nghymru neu yn Lloegr, anfonwch eich apêl i

HMCTS Benefit Appeals
PO Box 12626
Harlow
CM20 9QF

Os ydych yn byw yn yr Alban, anfonwch eich apêl i:

HMCTS SSCS Appeals Centre
PO Box 13150
Harlow
CM20 9TT

## Beth fydd yn digwydd ar ôl i'ch apêl gyrraedd GLlTEM

1. Bydd y Grŵp Cynhaliaeth Plant yn cael gwybod eich bod wedi apelio yn erbyn ei benderfyniad.
2. Bydd y Grŵp Cynhaliaeth Plant yn anfon gwybodaeth at y tribiwnlys mewn ymateb i'ch apêl. Byddwch chi a'r unigolyn arall sy'n rhan o'r apêl hefyd yn cael copi ohoni.
3. Bydd y tribiwnlys yn trefnu'r gwrandawiad ar gyfer eich apêl (os ydych wedi dewis mynychu'r gwrandawiad).
4. Bydd y tribiwnlys yn gwneud penderfyniad ar eich hawl i gynhaliaeth plant.

Mae'n anodd iawn dweud faint o amser y bydd yn ei gymryd i benderfynu eich apêl ond gall gymryd rhai misoedd.

---

Eich gwybodaeth bersonol

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn prosesu gwybodaeth bersonol amdanoch chi yng nghyd-destun achosion tribiwnlys.

I gael manylion am y safonau rydym yn eu dilyn wrth brosesu'ch data, ewch i www.gov.uk/government/organisations/hm-courts-and-tribunals-service/about/personal-information-charter.cy I gael copi papur o'r hysbysiad preifatrwydd hwn, ffoniwch 0300 303 5176 Ffôn testun 18001 0300 123 1024.
Os ydych yn ffonio o'r Alban, ffoniwch 0300 790 6234 Ffôn testun 18001 0300 790 6234.

**Gallwch barhau â'r rhesymau dros eich apêl Cynhaliaeth Plant yma (os oes angen)**

*(Parhewch â'ch rhesymau ar ddalen ar wahân o bapur, os byddwch yn rhedeg allan o le)*